



Comisiynydd
**Cenedlaethau'r
Dyfodol**
Cymru

**Future
Generations**
Commissioner
for Wales




Taith tuag at

Gymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

- 1: Datblygu sgiliau**, cynyddu cyfleoedd a pharchu ein statws fel cenedl ddwyieithog
- 2: Cynorthwyo pobl i ymgysylltu â diwylliant** yn eu gwaith bob dydd, gan ddangos ein pobl broffesiynol ddiwylliannol ar eu gorau
- 3: Defnyddio ymyriadau diwylliannol a ieithyddol** i fynd i'r afael â materion cymdeithasol ehangach
- 4: Defnyddio diwylliant a'r Gymraeg** i sbarduno newid economaidd ac amgylcheddol
- 5: Galluogi ein dinasyddion i gyrchu ac ymgysylltu â'u diwylliant hwy eu hunain a diwylliannau eraill**





Comisiynydd
Cenedlaethau'r
Dyfodol
Cymru

**Future
Generations**
Commissioner
for Wales



Taith tuag at

Gymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

Yn y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r
Dyfodol, diffinir y nod hwn fel

*“cymdeithas sy'n hyrwyddo a gwarchod
diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg
ac sy'n annog pobl i gyfranogi
yn y celfyddydau a chwaraeon a
gweithgareddau hamdden.”*



Diffinio'r nod

Mewn datganiad enwog dywedodd Mahatma Gandhi bod “diwylliant cenedl yn bodoli yng nghalonnau ac eneidiau ei phobl.”

Mae'r celfyddydau a diwylliant yn bwysig i'n holl fywydau. O fod yn aelod o'ch clwb chwaraeon lleol, i ymweld â'r theatr yn ystod y penwythnos, neu ganu mewn côr, mae'r celfyddydau a diwylliant yn gwneud ein bywyd yn werth ei fyw. Yng Nghymru, mae cysylltiad cryf rhwng diwylliant â'n treftadaeth a'r iaith Gymraeg; dyna sydd yn ein gwneud yn unigryw.

Yn ystod adegau o galedi, fodd bynnag, gellir camdehongli'r celfyddydau a diwylliant fel rhywbeth 'braf i'w gael' neu hyd yn oed fel moethusrwydd – pan fydd tystiolaeth yn dangos bod gwerthfawrogi'r celfyddydau a chreadigrwydd yn fanteisiol i'n llesiant economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol. Mae ymchwil hefyd yn awgrymu y bydd creadigrwydd ar ben y rhestr fel y sgil fwyaf dymunol ar gyfer y dyfodol. Mae angen mwy o gymorth traws sector i hybu cyfranogiad mewn, ac ymgysylltiad â diwylliant, yn cynnwys y celfyddydau, chwaraeon

a gweithgareddau oriau hamdden, yn ogystal â'r Gymraeg. Mae mynediad cyfartal i'r celfyddydau felly'n hollbwysig ar gyfer cyflawni'r nod hwn. Drwy hybu a gwarchod ein diwylliant a'n treftadaeth, rydyn ni'n dod i werthfawrogi eu rôl fel mecanweithiau ar gyfer newid cymdeithasol a'u potensial ar gyfer cyflawni ffyniant a chydnerthedd. Defnyddir diwylliant yn y ddogfen hon fel term sy'n cwmpasu archifau, celfyddydau, iaith, llyfrgelloedd, amgueddfeydd, chwarae a chwaraeon.



Astudiaethau achos

Trwy'r ddogfen hon fe welwch nifer o adroddiadau sy'n berthnasol i'r pwnc. Os rydych yn gweld y symbol hwn cliciwch ar y ddolen i ddarllen y stori.



Diffinio'r nod

Ble i ffocysu gweithredu wrth gyfrannu at y nod hwn

Hybu a gwarchod y Gymraeg.

[\(Gweler Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu, pwnc taith 1: Cynorthwyo'r Gymraeg\).](#)

Hybu a gwarchod diwylliant a threftadaeth, gan werthfawrogi eu rôl fel mecanweithiau ar gyfer y dyfodol.

[\(Gweler Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu, pwnc taith 3: Diwylliant fel mecanwaith ar gyfer newid\).](#)

Hybu a gwarchod diwylliant a threftadaeth, gan werthfawrogi eu potensial i gyflawni ffyniant a chydnerthedd.

[\(Gweler Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu, pwnc taith 4: Diwylliant yn galluogi ffyniant a chydnerthedd\).](#)

Annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, chwaraeon a gweithgareddau oriau hamdden, a gwerthfawrogi creadigrwydd.

[\(Gweler Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu, pwnc taith 2: Gwerthfawrogi Creadigrwydd\).](#)

Annog sefydliadau i sicrhau bod y celfyddydau, chwaraeon a gweithgareddau oriau hamdden ar gael i bawb.

[\(Gweler Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu, pwnc taith 5: Diwylliant ar gael i bawb\).](#)

Gofynion statudol eraill sy'n berthnasol i'r nod hwn

Mae'n ofynnol i **gyrff cyhoeddus** lynu wrth y ddeddfwriaeth sy'n eu cwmpasu ac unrhyw gytundeb a wnaethpwyd rhyngddynt hwy a Llywodraeth Cymru neu eu Corff a Noddir.

Pasiwyd **Mesur y Gymraeg** gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn 2011, gan sefydlu Safonau'r Gymraeg. Gellir cael mwy o wybodaeth ar [wefan Comisiynydd y Gymraeg](#).

Mae rhai o'r camau a'r gweithrediadau a awgrymir yn y ddogfen hon yn unol â Safonau'r Gymraeg, felly dylai gyrff cyhoeddus yng Nghymru fod yn eu cyflawni eisoes - caiff y camau a'r gweithrediadau hyn eu hamlygu mewn oren gyda'r symbol 'St'. Mae rhai o'r camau, tra'n ymddangos fel rhai sy'n cyd-fynd ag ethos y safonau, yn gofyn i gyrff cyhoeddus fynd gam ymhellach gan wneud mentrau iaith a chyfleoedd yn rhan annatod o'u sefydliad.



Galluogwyr

Mae cyflawni'r nod hwn yn **fwy tebygol o ddigwydd...**

- Pan fydd strategaeth genedlaethol a lleol yn bodoli.
- Pan fydd sefydliadau'n deall sut i fanteisio i'r eithaf ar asedau fel llyfrgelloedd, cyfleusterau chwarae, amgueddfeydd, orielau, cyfleusterau chwaraeon, sefydliadau celf ac adeiladau hanesyddol.
- Pan fydd yna ddealltwriaeth o botensial creadigrwydd (yn arbennig ymhlith pobl broffesiynol ddiwylliannol) i gynorthwyo newid mewn llunio polisi a'r gymdeithas ehangach.
- Pan fydd datblygiad busnes mewn trefi a dinasoedd yn cael ei adeiladu o gwmpas eu cynnig diwylliannol.
- Pan fydd partneriaethau arloesol ar gael sy'n caniatáu i ddiwylliant fod yn fwy gweladwy mewn bywyd bob dydd, er enghraifft cysylltu'r agendau diwylliannol ac iechyd.
- Pan fydd prosiectau o'r gorffennol yn dangos effaith hirdymor buddsoddi mewn diwylliant ac iaith.



Analluogwyr

Mae cyflawni'r nod hwn yn **llai tebygol o ddigwydd...**

- Pan na fydd dealltwriaeth neu werthfawrogiad o gyfraniad diwylliant a'r
- Gymraeg i ganlyniadau ehangach a'r agenda atal.
- Pan fydd cymorth yn un tymor byr neu ariannu ar gyfer prosiectau yn cael ei gyfyngu gan amser, neu pan fydd prosiectau peilot yn lleihau'r cyfle ar gyfer effaith parhaol.
- Pan fydd tystiolaeth neu arwyddion yn gyfyng ar gyfer 'profi' gwerth ac effaith.
- Pan fydd gweithgareddau diwylliannol a ieithyddol yn digwydd mewn seilos.
- Pan na fydd darlun llawn o asedau diwylliannol lleol yn bodoli (yn cynnwys adeiladau, mannau agored a phobl) a phan na fydd cysylltiad rhyngddynt â darpariaeth amcanion ehangach.





Comisiynydd
**Cenedlaethau'r
Dyfodol**
Cymru

**Future
Generations**
Commissioner
for Wales



Taith tuag at

Gymru â diwylliant bywiog lle
mae'r Gymraeg yn ffynnu

5: Diwylliant ar gael i bawb

Galluogi ein dinasyddion i gyrchu ac ymgysylltu â'u
diwylliant hwy eu hunain a diwylliannau eraill

Diffinio'r mater

Mae pobl yn profi diwylliant ym mhob rhan o'u bywyd bod dydd hyd yn oed os nad yw hyn yn cael ei gydnabod yn llwyr. O'r dillad yr ydym yn eu gwisgo i'r gerddoriaeth yr ydym yn gwrandao arni a'r adeiladau yr ydym yn treulio amser ynddynt – mae diwylliant o'n hamgylch pa le bynnag yr ydym ac mae'n allweddol i'n cysylltiadau cymdeithasol a'n hunaniaeth bersonol.

Mae Erthygl 27 Datganiad Cyffredinol Hawliau Dynol yn datgan bod gan *“bob un yr hawl i gyfranogi ym mywyd diwylliannol y gymuned, i fwynhau'r celfyddydau, a rhannu mewn cynnydd gwyddonol a'i fanteision”*. Felly ni ellir gwahanu hawliau diwylliannol oddi wrth hawliau dynol, fel y cydnabyddir yn Erthygl 5 Datganiad ar Amrywiaeth Diwylliannol 2001 UNESCO, y gellir ei ddiffinio fel hawl i gyrchu, i gyfrannu at, a mwynhau diwylliant.

Synergedd a chysylltiadau â theithiau eraill



Taith tuag at Gymru o gymunedau cydlynus

Pwnc 1: Pobl weithgar yn eu cymunedau



Taith tuag at Ymgyfraniad

Pwnc 2: Ymgyfraniad sy'n wynebu tuag allan



Taith tuag at Gymru fwy cyfartal

Pwnc 3: Cyfranogiad



Gwneud **Newidiadau** Syml

Polisi

Rhowch fynediad am ddim i Park Run ar unrhyw dir sy'n eiddo i'r cyhoedd.

e.e. Roedd y **Cynghorydd Ann Crimmings** a gynrychiolodd Orllewin Aberdâr/Llwydcoed wedi ymgyfrannu mewn sefydlu Parkrun ym Mharc Aberdâr.
<https://youtu.be/YkGPQxzoq6E>

Cynorthwywch a hyrwyddwch y [Cynllun Noson Allan](#) – gan ymrwymo i gyfrannu symiau bach o arian i alluogi grwpiau cymunedol i gyrchu a hybu perfformiadau proffesiynol yn eu cymunedau.

e.e.– Dyma rai camau syml:
<https://youtu.be/mSY1WfvIBKs>

Galluogwch fynediad am ddim i amgueddfeydd, llyfrgelloedd a mannau gwyrdd.

Ysgrifennwch eich holl ddogfennau cyhoeddus mewn Cymraeg Clir (Cymraeg syml, naturiol a chlir).

Mapiwch y ddarpariaeth ddiwylliannol leol yn yr ardaloedd lle'r ydych yn gweithio.

e.e. [Powys Arts Engine](#) - cyfeiriadur ar-lein o artistiaid a gwasanaethau lleol.

Defnyddiwch Ddiwrnodau Rhyngwladol y Cenedloedd Unedig (e.e. Diwrnod Rhyngwladol Mamiaith Chwefror 21; Diwrnod Barddoniaeth y Byd Mawrth 21; Diwrnod Rhyngwladol Chwaraeon ar gyfer Datblygu a Heddwch Mawrth 25; Diwrnod rhyngwladol Jazz Ebrill 30) i wella ymwybyddiaeth ddiwylliannol ryngwladol.

Gwneud **Newidiadau** Syml

St

Sgiliau

Sicrhewch eich bod yn gofyn i staff cyfredol sy'n darparu gwasanaeth, a ydynt yn medru'r Gymraeg er mwyn galluogi gwasanaethau diwylliannol megis gwersi nofio, sesiynau chwaraeon i gael eu cynnal drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mynediad

Ystyriwch y cyfleoedd i gynorthwyo a datblygu clybiau lleol sy'n ymgyfrannu mewn chwaraeon.

Cynorthwywch y defnydd o gyfleusterau ysgol ar gyfer dysgu diwylliannol cymunedol ehangach/cyfranogiad tu allan i oriau ysgol i gynnwys defnyddio lleiniau llifoleuadau ar gyfer defnydd allgyrsiol a chymunedol.

ee

Galluogwch ddatblygiad gweithgaredd diwylliannol cymunedol mewn mannau sy'n eiddo i'r cyhoedd megis ar gyfer grwpiau darllen, timau chwaraeon, corau, hel achau.

e.e. **Prosiect celf** Llyfrgell yr Eglwys Newydd
<https://twitter.com/cdflibraries/status/868127702666153985>

Bod Yn Fwy Anturus

Polisi

Datblygwch a gweithredwch strategaeth ddiwylliannol ar gyfer eich sefydliad.

Casglwch storïau unigol yn greadigol (er enghraifft drwy storïau digidol) a chyflwynwch nhw i lunwyr polisi i sicrhau bod lleisiau rhanddeiliaid yn cael eu clywed ar gyfer datblygu yn ogystal â choethi polisi, a dangos effaith diwylliant ar fywyd unigolion a bywyd cymunedol.

Gweithiwch gydag amgueddfeydd a chyfleusterau archifau i ddatblygu casgliadau ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol i weld beth yw natur 'heddiw'.

Dewiswch eiriolydd diwylliant, os yn bosibl aelod cabinet neu aelod o fwrdd sy'n gyfrifol am ddiwylliant.

Cytunwch ar raglen o ddyddiadau diwylliannol gyda phobl ddiwylliannol leol i ddwyn ACau, Cyngorwyr Lleol, Prif Weithredwyr a.y.y.b. i ddigwyddiad/gweithgaredd diwylliannol a thrafodwch hyn gyda nhw i ddatblygu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o effaith.

Partneriaethau

Gweithiwch gyda llyfrgelloedd lleol fel partneriaid mewn ymyriadau allweddol i gynorthwyo gwaith wedi ei dargedu gyda ffoaduriaid, pobl sy'n byw mewn arwahanrwydd gwledig, pobl hŷn, rhieni ifanc a.y.y.b.

e.e. Mae'r Gronfa Arloesol **Cyfleodd i Bawb** yn amlygu astudiaethau achos a chanlyniadau lle mae llyfrgelloedd wedi targedu grwpiau agored i niwed y maent yn gweithio gyda nhw. <https://www.gov.uk/government/publications/evaluation-of-the-libraries-opportunities-for-everyone-innovation-fund/evaluation-of-the-libraries-opportunities-for-everyone-innovation-fund>

Bod Yn Fwy Anturus

Sicrhewch eich bod yn meithrin cydweithio rhwng darparwyr diwylliant (megis sefydliadau celfyddydau cymunedol, amgueddfeydd lleol, clybiau chwaraeon, cymdeithasau treftadaeth a.y.y.b.) i ychwanegu gwerth at gynigion cyfredol a chynorthwyo datblygu sgiliau.

Sgiliau

Cynorthwywch y rhai sy'n ymgyfrannu mewn cynorthwyo/ addysgu plant a phobl ifanc i'w cyfeirio'n weithredol tuag at gyfleoedd diwylliannol all-gwricwlwm a'u cynorthwyo i ddewis gyrfaoedd creadigol.

Sicrhewch fod y ddarpariaeth ddiwylliannol mewn sefydliadau addysg (e.e. Gwasanaethau Cerddoriaeth) yn hygyrch i bawb, yn cael eu cynnal a'u gwneud yn addas ar gyfer yr 21ain ganrif.

Ystyriwch sut y gall prosiectau a gweithgaredd diwylliannol gael eu datblygu fel cyfrwng ar gyfer meithrin sgiliau yn y Gymraeg a hyder i'w siarad.

ee

ee

e.e. [Prifysgol Bangor / Pontio](#) – cyfle i ddatblygu sgiliau iaith, drwy gyfranogiad diwylliannol.

e.e. Mae **Tŷ Pawb yn Wrecsam** yn cynnal gweithgareddau diwylliannol a gwersi i ysgolion yn ogystal â rhedeg digwyddiad diwylliannol i'r teulu bob dydd yn ystod gwyliau ysgol.

Bod Yn Fwy Anturus

Llesiant Cymunedol

Sicrhewch fod gweithgareddau llawr gwlad ar gael yn lleol i bob dinesydd, yn cynnwys cyfleoedd cymunedol a rhai sy'n pontio cenedlaethau ar gyfer ymgysylltu, er enghraifft drwy garnifal neu wyl.

e.e. – **Prosiect Cyfuno Gwynedd Fusion**

<https://youtu.be/1st8tZ7kFNY>

e.e. Mae gan y rhaglen **Ffrind i Mi sy'n Cysylltu Cenedlaethau** yng Ngwent ystod o astudiaethau achos sy'n amlygu manteision rhaglenni sy'n cysylltu cenedlaethau drwy ddefnyddio diwylliant a chelfyddyd.

Cydnabyddwch sefydliadau diwylliannol fel sefydliadau â'r potensial i fod yn sefydliadau angori cymunedol (sy'n deall cymunedau lleol ac yn rhoi llais i bobl leol, a sicrhewch eu bod yn cael eu cynorthwyo i gadw asedau ac adeiladu cydnerthedd o fewn y gymuned).

Galluogwch sefydliadau diwylliannol i gymryd rhan mewn gweithgareddau cyllido (lle gall pobl leol roi eu barn ar sut y dylai arian cyhoeddus gael ei wario).

Hyrwyddwch eich cynnig diwylliannol a sicrhewch nad yw hyn yn cael ei ddyblygu drwy fentrau newydd sy'n cael eu hariannu'n gyhoeddus. Mae hyrwyddo'r cynnig diwylliannol sydd tu allan i'r hyn yr ydych ar hyn o bryd yn ei gynorthwyo yn bwysig ar gyfer sicrhau nad yw

mentrau newydd sy'n cael eu hariannu'n tansellio darpariaeth gyfredol.

Sicrhewch fod treftadaeth yn cael ei chysylltu â chymdeithas gyfoes drwy ail ddychmygu'r gorffennol mewn cydweithrediad â chymunedau lleol, yn hytrach na dibynnu ar adrodd y stori yn yr un hen ffordd.

e.e. **Prosiectau cydweithredol** Hedd Wyn yng ngogledd Cymru.

e.e. **Shooting roots** - gwyliau sy'n cynorthwyo pobl ifanc i gyrchu celfyddydau gwerin traddodiadol mewn cymdeithas gyfoes.

ee

ee

ee

ee

Bod Yn Fwy Anturus

Galluogwch ymgysylltiad gweithredol menter y BBC '[Get Creative](#)' i ysbrydoli staff a chymunedau lleol i ymgysylltu â gweithgaredd diwylliannol.

Datblygwch weithgaredd diwylliannol sy'n caniatáu i gymunedau gysylltu â'r amrywiaeth sydd yn y byd a dyfnhau dealltwriaeth o faterion byd-eang.

e.e **Diwedd y Byd Treganna**
https://youtu.be/CJfZNGWZ_NU

Mynediad

Galluogwch berfformiadau/ddehongliadau hygyrch i fod ar gael ar raddfa eang, yn cynnwys ystyriaeth o ddehongliad/hygyrchedd y Gymraeg yn ogystal

â pherfformiadau hamddenol, digwyddiadau a chyfleoedd (y rhai hynny sy'n addas i bobl ag awtistiaeth a dementia).

e.e. [Sefydliad y Glowyr Coed Duon](#) / [Theatrau Rhondda Cynon Taf](#) - perfformiadau hamddenol.

e.e. ap '[Sibrwd](#)' Y **Theatr Genedlaethol** - yn cefnogi mynediad i gynyrchiadau Cymraeg

e.e. Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol - yn cynorthwyo pobl anabl i gael gwell mynediad i safleoedd diwylliannol.

e.e. [Mapiau synhwyrô'r Ymddiriedolaeth Brydeinig](#) - cynorthwyo pobl anabl i gael mwy o fynediad i safleoedd diwylliannol.

Ystyriwch sut y gall rhaglenni gwaith gael eu cynorthwyo gan seilwaith trafndiaeth gyhoeddus neu gyfleoedd teithio llesol - er enghraifft gyda'r hwyr, penwythnosau a Gwyliau Banc. Sicrhewch fod cyfathrebu am ddigwyddiadau a rhaglenni'n rhoi gwybodaeth am drafndiaeth gyhoeddus a theithio llesol.

e.e **Gŵyl y Gelli'n** darparu gwybodaeth hollgynhwysfawr am drafndiaeth gyhoeddus, rhannu car, a theithio llesol.

<https://www.hayfestival.com/wales/travel>

Bod Yn Fwy Anturus

Cynhaliwch archwiliad

o'r cyfleusterau mynediad i ddigwyddiadau diwylliannol i rai â gwahanol anghenion, rhieni gyda phlant ifanc, a phobl o wahanol gefndiroedd diwylliannol, i ystyried pa mor hawdd ydyw hi i gynulleidfaoedd, a gweithwyr llawrydd a staff gael mynediad, a sicrhewch fod yna gynllun wedi ei ddatblygu a'i weithredu fel canlyniad i hyn.

Buddsoddwch mewn

gwneud diwylliant yn hygyrch i gymunedau lleol drwy, er enghraifft, gynlluniau aelodaeth/ cardiau dinasyddion lleol a.y.y.b.

e.e. [Mynediad am ddim i henebion CADW a chynlluniau eraill mynediad am ddim.](#)

Adroddwch storïau unigolion

drwy fecanweithiau diwylliannol (storïau digidol, dehongliadau amgueddfa a.y.y.b.) i ysbrydoli eraill i godi eu llais a mynegi gwahanol bersbectifau ar fywyd Cymru.

e.e. Amgueddfa Stori

Caerdydd yn gweithio gyda ffoaduriaid o Syria i greu gofod cymunedol ac adrodd stori Caerdydd fel dinas a adeiladwyd ar fudo. <https://www.youtube.com/watch?v=dT7rGjBEDck> (Credyd: Museums Association)

Rhowch flaenoriaeth i amrywiaeth y rhai sy'n cyfranogi

mewn gweithgareddau diwylliannol, yn arbennig i'r rhai a welir yn draddodiadol fel rhai elitaid, megis golff, opera.

e.e. Rhaglen allgymorth [Opera Cenedlaethol Cymru](#) – yn gwneud opera'n fwy hygyrch i gymunedau.

Hyrwyddwch a defnyddiwch

fannau gwyrdd ar gyfer gweithgaredd diwylliannol a chwarae yn cynnwys drwy bartneriaethau arloesol i gyrraedd cymunedau lleol.

Sicrhewch fod dewisiadau iaith Gymraeg ar gael yn hawdd ym mhob system ddigidol yn cynnwys peiriannau parcio, system apwyntiadau syrjeris doctoriaid, systemau bwcio mewn llyfrgelloedd a.y.y.b.

Adeiladwch ymddiriedaeth gyda gwahanol gymunedau ledled Cymru i ennill gwell dealltwriaeth o ddiwylliant cyfoes Cymru a sicrhau bod hyn yn cael ei adlewyrchu yn eich rhaglenni gwaith.

Perchnogi'r Uchelgais

Gweithredu cydweithredol neu genedlaethol

Strategaeth Diwylliant

Cenedlaethol yn cael ei datblygu a'i gweithredu mewn partneriaeth â phob sector.

Cyd-advocatiaeth o effaith ymgysylltu diwylliannol yn cael ei ddatblygu.

Datblygwch ddull o feddwl am y dyfodol i sicrhau bod gwasanaethau a chyfleusterau diwylliannol yn ateb y gofyn yn awr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Sefydlwch bartneriaethau strategol rhwng darparwyr diwylliant i sicrhau cyfartaledd mewn darpariaeth ledled Cymru a haenau o gyfleoedd o lawr gwlad i weithgaredd elitaidd yn

ogystal â digwyddiadau lleol a chenedlaethol.

Gweithiwch gyda'r sector

diwylliannol (yn cynnwys amgueddfeydd, celf, chwaraeon, llyfrgelloedd a threftadaeth) i greu pasbort i ffordd o fyw i hybu cyfleoedd mewn ystod o leoliadau ar gyfer celfyddyd, chwaraeon a hamdden. Dylai hyn gynnwys darparu cyfleoedd gyda disgownt a mapio'r defnydd a wneir ohonynt a'r bylchau er mwyn amrywio cyfranogiad.

Ymagwedd graddfa fawr

tuag at wneud cyfleusterau diwylliannol yn hygyrch i staff, cynulleidfaoedd, cyfranogwyr a phobl broffesiynol ddiwylliannol, yn cynnwys sefydlu potiau cyfalaf penodol i ddeilio â'r datblygiadau adeiladu trosfwaol ag angen amdanynt.

Coridorau diwylliannol yn cael eu sefydlu ledled Cymru sy'n defnyddio tir y sector cyhoeddus a'r trydydd sector i gysylltu safleoedd diwylliannol â sefydliadau creadigol i gynorthwyo cyfle, cyrhaeddiad a ffyniant.

e.e. [Yorkshire Sculpture Triangle](#) – yn creu coridorau diwylliannol ar draws ardaloedd gwledig.

Perchnogi'r Uchelgais

Gweithredu sefydliadol

Defnyddiwch ymyriadau

creadigol (er enghraifft theatr fforwm, cylchoedd stori) i gysylltu cymunedau lleol â llunwyr polisi.

Mynediad

Gweithiwch mewn partneriaeth

i sicrhau bod yna fecanweithiau sirol/rhanbarthol yn cael eu datblygu i sicrhau bod lleisiau cymunedau'n cael eu clywed a'u hystyried mewn cynrychiolaeth, mewn rhaglenni ac mewn dehongliadau o'r cynnig cynnyrch diwylliannol lleol.

ee

e.e. [Y Fforwm Amrywiaeth Amgueddfa Genedlaethol Cymru](#) - yn darganfod dulliau newydd o ddehongli diwylliant gyda chynrychiolwyr o wahanol gymunedau.

Datblygwch ar y cyd a defnyddiwch dechnoleg ymgolli i gysylltu pobl, rhannu gwybodaeth ac ennyn ymgysylltiad cymunedau â'r cynnig diwylliannol.

ee

e.e. Arddangosfa Mudo **'In the Eyes of the Animal'** <http://www.migrations.uk/In-the-Eyes-of-the-Animal>

Sicrhewch fod gennych gynllun cydweithredol clir a lleol yn ei le

i ennyn ymgysylltiad cymunedau amrywiol â diwylliant Cymreig. Diben hyn yw cydnabod beth yw ystyr bod yn Gymraeg (a fydd yn gwahaniaethu mewn gwahanol fannau o Gymru) yn ogystal â'r modd y mae syniadau am ddiwylliant yn cael eu dathlu, eu hailddiffinio a'u gweithredu'n lleol.

Engbreiffiau ac adnoddau eraill



Partneriaethau Iechyd a Threftadaeth - i gynorthwyo pobl i gyrchu diwylliant drwy wirfoddoli.




Dusty Forge Treftadaeth Caer - yn cynorthwyo pobl i gyrchu a gwerthfawrogi eu treftadaeth.



Guerilla Museum (Amgueddfa Stori Caerdydd) - yn dwyn diwylliant i gymunedau.



Cyfoeth Naturiol Cymru Gwobr ICiPS am gydweithrediad tir gydag Ymddiriedolaethau Archeolegol Cymreig.



Gentle/Radical - symposia pobl i gynorthwyo cymunedau i godi eu lleisiau a chael gwrandawriad.



Model Canada ar gyfer cynorthwyo cerddoriaeth a syrcau (buddsoddiad o'r pwrs cyhoeddus i ddatblygu cyfle a ffyniant).



Pasbort llythrennedd corfforol Sir Gaerfyrddin.



Gelli Gandryll, tref y llyfr - yn creu marchnadoedd a chysniadau dwys yn ymwneud â diwylliant.